LLANON

LLANSANTFFRAED CEREDIGION



*CAEAU LLEINIOG
(MORFA ESGOB)
*EGLWYS
*ADFEILION HYNAFOL
*BWTHYN TO GWELLT

Amgueddfa Ceredigion
Arfordir Treftadaeth Ceredigion
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Cymuned Llansantffraed

(English translation on reverse)

Saif pentref Llanon ar yr A487 rhwng Aberaeron ac Aberystwyth.

Mae'n enwog oherwydd y cysylltiad a'r **Santes Non a Dewi Sant** a'r llain o dir amaethyddol da ger y môr, yn enwedig rhwng Afon Clydan ac Afon Peris, lle mae **caeau lleiniog canoloesol** yn dal mewn bodolaeth.

Ym mhentref Llanon mae hen adfeilion a adwaenir fel "Y Neuadd" ac mae'n debyg mai **adeilad pwysig o'r canoloesoedd** yw'r rhain. Gerllaw ceir un o'r **bythynod** diwethaf yng ngorllewin Cymru sy'n dal i fod â tho gwellt wedi'i wneud a rhaffau gwellt. Rhoddwyd y rhain i Amgueddfa Ceredigion gan Mr Alex Cameron er cof am ei wraig, Elsbeth (nee Lloyd), brodor o Lanon a adawodd ddarn o dir ger y bwthyn fel **parc cyhoeddus.**

Ar yr arfordir mae hen **eglwys** gyda thwr yn dyddio o'r 13eg ganrif a chorff eglwys o ddechrau'r 19eg ganrif.

Mae'r **traeth** yn garegog gyda pheth tywod ac mae'n wag fel rheol. Mae'r **haenau daearegol** ar y clogwyni wedi'u dynodi'n Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

CYFLEUSTERAU CYHOEDDUS:

Toiledau: ger y maes parcio a'r eglwys
Maes chwarae i blant, siopau a lleoedd bwyta.

PARCIO

Cynghorir ymwelwyr i barcio ger y cyrtiau tenis o Stryd yr Ysgol (trowch oddi ar y ffordd fawr ger y siop sglodion), cerddwch i gyfeiriad y de ar hyd y ffordd fawr at y bwthyn a'r adfeilion.
Croeswch y ffordd fawr i gyfeiriad y môr, trwy'r caeau lleiniog at yr eglwys, yna cerddwch yn ôl at y ffordd fawr a'r maes parcio.

ORIAU AGOR

Bydd y bwthyn ar agor i'r cyhoedd dydd Mawth - Dydd Gwener a Dydd Sul a Dydd Llun Gwyl Y banc, yn ystod mis Awst rhwng 2.00 - 4.00. Mae'r adfeilion, y parc a maes chwarae'r plant ar agor trwy'r amser.